

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 8fed Mehefin, 2021 am 7.30pm dros yn Neuadd Dihewyd.**

Cynhaliwyd y cyfarfod gyda'r holl weithdrefnau a phrotocolau isod ar waith.

- Gosod bordydd a chynnal pellter cymdeithasol o 2 fetr.
- Gwisgo masg trwy gydol y cyfarfod.
- Darparwyd hylif dwylo
- Ccadwyd drysau a ffenestri ar agor.

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Gerwyn Owen (Cadeirydd) Lynford Thomas, Harry Williams, Daniel Evans, Lyn Williams,,Haf Hughes,Hywel Ifans, Johnny Davies

**1.YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr Glyn Davies, Alan Henson, Owen Llywelyn

**2. PERSONOL** – Nodwyd ein cydymdeimlad i deulu cyn-gynghorydd y Cyngor Cymuned sef Mr.Lee Jones.

**3. DATGELU BUDDION PERSONOL**

i. **Ceisiadau ariannol:** Ysgol Dihewyd – Y Cyng. Gerwyn Owen a'r Cyng. Lynford Thomas

**4. COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion 11 Mai, 2021. Cynigiwyd gan y Cyng. Hywel Ifanc ac eiliwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas.

**5.. MATERION YN CODI**

i. **Cofnodion Ebrill 8.i** Mae'r Deffibriliwr yn ei le. **Penderfynwyd anfon llythyron diolch i:**

- Tudur Jones      Michael Morgans      Perchennog Fronfelen.
- **Penderfynwyd** anfon adroddiad i'r Cambrian News a Llais Aeron a'r Cadeirydd a'r Cynghorydd Sir yn y llun.
- **Penderfynwyd** cynnig hyfforddiant i bobol yr ardal mewn ymghynghoriad â Mr. Michael Morgans. Dim mwy na 10 ac yn ddibynol ar reolau Covid ar y pryd.

ii. **Cofnodion Ebrill. 11.i** Rhannwyd llythyr oddi wrth Gerwyn Jones o Adran Prifffyrdd. Daeth gwybodaeth i law yn y cyfamser bod y sbwriel wedi ei lanhau ond heb sicrwydd o bwy sydd wedi 'neud y gwaith.

iii. **Cofnodion Mai 10.ii.** Darllenwyd llythyr a dderbyniwyd gan Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Hywel Dda mewn ymateb i'n llythyr. Yn dilyn trafodeth bellach cynigiodd y Cyng. Harry Williams ac eiliwyd gan Y Cyng Hywel Glyn ein bod yn anfon llythyr yn diolch am yr ymateb a tra'n derbyn y pwyntiau a roddwyd gerbron yn gofyn am eglurhad am yr hyn sy'n

digwydd nawr i sicrhau bod cleifion yn cael y sylw priodol. Copïau at Eluned Morgan, Y Gweinidog Iechyd, Ben Lake AS ac Elin Jones AC. **Derbyniwyd** yn unfrydol.

**10iv. Gweithgor Dyffryn Aeron. Penderfynwyd** gan bod gymaint i'w drafod yn y cyfarfod hwn i wahodd aelodau'r o'r Gweithgor I roi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf.

## 6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Soniodd y Cyng. Lynford Thomas am gyfarfod yn trafod y sefyllfa am y Ffermydd sy'n eiddo i'r Cyngor a'r pwysau sydd arnynt oherwydd rheolau amgylcheddol newydd sy'n dod i rym yn fuan. Sefydlwyd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd newydd sef Y Cyng. Paul Hinge ac Ifan Davies. Soniodd am Borth Gofal newydd ar gyfer ymateb i anghenion y rhai mwyaf bregus yn y Sir. Wrth gloi, diolchodd i athrawon a phawb o fewn y gyfundrefn addysg am sicrhau bod y gwaith o addysgu plant y Sir wedi parhau a hynny o dan amgylchiadau anodd iawn.

## 7. CYLLID

- I. **Tâl y Clerc Mis Mai.** – Oherwydd bod y codiad cyflog o 2% a gadarnhawyd yn yr AGM (11/5/20210 wedi ei ôl-ddyddio l Ebrill 2021 newidiodd cyflog Mai a nodwyd yn y cyfarfod diwethaf (11/5/2021 8.i) wedi codi o £195.50 i £203.32.
- II. **Ffurflenni'r Archwiliwr Allanol.** Cadarnhawyd bod y ffurflenni wedi cael eu hafnon.
- III. **Ceisiadau ariannol. Dyfarnwyd y canlynol:**
  - a) **Beiciau Gwaed Aberystwyth. £100** Cynigydd Cyng. Dan Evans, eilydd Cyng. Johnny Davies. Derbyniwyd yn unfrydol.
  - b) **Eisteddfod yr Urdd. £25.00** Cynigydd Cyng. Harry Williams, eilydd Cyng. Lynford Thomas. Derbyniwyd yn unfrydol.
  - c) **Radio Bronglais. £25.00** Cynigydd Cyng. Lynford Thomas, eilydd Cyng. Harry Williams. Derbyniwyd yn unfrydol.
  - d) **Cerebal Palsy Cymru. £25.00** Cynigydd Cyng. Hywel Ifanc, eilydd Cyng. Lynford Thomas. Derbyniwyd yn unfrydol.
  - e) **Macmillan yng Ngheredigion. £100** Cynigydd Cyng. Dan Evans, eilydd Cyng. Lyn Williams. Derbyniwyd yn unfrydol.
  - f) **Cae Chwarae Cribyn. Penderfynwyd yn unfrydol** gofyn am ragor o fanylion am yr hyn oedd angen arnynt ac i'w drafod eto ym mis Rhagfyr.
  - g) **Ysgol Dihewyd. £400.00** Cynigydd Cyng. Hywel Ifans, eilydd Cyng. Haf Hughes. Derbyniwyd yn unfrydol.

Derbyniwyd ceisiadau hefyd gan Gofal Mewn Galar, Ambiwlans Awyr a Marie Curie. Derbyniodd y tri hyn rhoddion ariannol yn ein cyfarfod ym mis Medi.

iv **Tsaen y Cadeirydd.** Talwyd £12 i Lloyds Jewellers, Llanbed am ychwanegu enwau Y Cyng. Glyn Davies a'r Cadeirydd presennol l'r tsaen.

v. **Balans.** Gweddill yn y banc ar 27/5/2021 yw £7,503.53

## 8. ADRODDIADAU

- i. **Uno i ddatrys argyfwng ail gartrefi.** Derbyniodd y Cyng. Hywel Ifans wahoddiad i ymuno â Chyngor Tref Nefyn mewn cyfarfod Zoom ar 27ain Mai 2021. Estynnwyd y gwahoddiad i holl Gynghorau Tref a Chymuned Cymru mewn ymgais i gydweithio i roi pwysau ar y Llywodraeth i edrych o ddifri ar wneud ymrwymadau pendant i ddelio â'r argyfwng dai. Seiiwyd y symudiad hwn i weithredu yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Dr. Simon Brookes Ail gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru. Yn rhan o'r digwyddiad, ychwanegodd Hywel ei enw, fel unigolyn, i'r llythyr sy'n cael ei anfon at y Llywodraeth ond diolchwyd iddo gan y Cadeirydd am fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor Cymuned.
- ii. **Cyfarfod SLCC ac Un Llais Cymru.** Cafwyd adroddiad gan y Clerc am y cyfarfod a fynyhood dros Zoom ar 13/5/2021. Cafwyd cyflwyniadau defnyddiol gan nifer o asiantaethau a chynrychiolwyr y Llywodraeth a nodwyd nifer o faterion sydd yn berthnasol i'r Cyngor o ran gweithredu yn y dyfodol. (Atodir y nodiadau gyda'r cofnodion er sylw'r aelodau).

## 9. Gwobr Gymunedol.

Oherywdd prinder amser penderfynwyd trafod y mater hwn yn y cyfarfod nesaf.

## 10. Gohebiaeth

- I. **Côr Gobaith.** Derbyniwyd llythyr gan y grŵp hwn yn gofyn i'r Cyngor i ystyried cyflwyno torch pabi gwyn yn y gwasanaeth Sul y Cofio eleni. Cynigiodd y Cyng. Hywel Ifans bod y mater yn cael ei drafod pan fydd y Cyng. Owen Llywelyn yn bresennol (gan ei fod yn gefnogol i'r syniad) er mwyn medru cael trafodaeth o safbwynt y ddwy ochor. Eiliwyd gan Cyng. Haf Hughes a **derbyniwyd yn unfrydol.**
- II. **WeFibre.** Derbyniwyd taflen wybodaeth am y cynllun hwn gan Glerc Ciliau Aeron i'w ystyried. Nodwyd bod y wybodaeth yn ddefnyddiol pe bai unrhyw etholwr eisiau mwy o wybodaeth am y cynllun.
- III. **Ymholiad am bryder traffig.** Derbyniwyd a darllenwyd llythyr oddi wrth Mr. Darren Molloy o Gribyn yn lleisio ei bryder ynghylch maint y traffig a'r cyflymder y mae cerbydau'n teithio trwy'r pentref ac yn gwneud cais am arian ar gyfer prynu offer sy'n cofnodi nifer a chyflymder cerbydau. Ar ôl trafodaeth, nododd y Cyng. Hywel Ifans na allwn fel corff ariannu pryniant ar ran unigolyn a gan mai cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw materion traffig ein bod yn dilyn y weithdrefn arferol ac yn cysylltu â'r adran Rheoli Traffig. Ychwanegodd y Cyng. Lyn Williams ein bod, wrth gyfeirio'r mater at y Cyngor Sir, yn gofyn am gynnal arolwg cyflymder a fyddai'n cyflawni'r cais casglu data. Cytunwyd yn unfrydol i gysylltu â'r Adran Draffig a gofyn am arolwg cyflymder yn ogystal ag estyn gwahoddiad i'r Prif Beiriannydd gwrdd ag aelod / aelodau o'r Cyngor yn y pentref.

11, UNRHYW FATER ARALL – Dim materion i'w trafod.

12. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF.

13eg Gorffennaf, yn Neuadd Felinfach (oni bai bod rheolau Covid yn newid).

